# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 4YDD MAWRTH, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Dwyryd**
**Canolfan Gyswllt y Cyngor**
**Penrhyndeudraeth**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**annession@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd DyddiadAmhenodol 22/02/19)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cyllid)

## CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL

Mr Iwan Trefor Jones

## PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD

Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

## PENAETHIAID CYNRADD

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Nefyn
Mr Trystan Larsen - Ysgol Rhostryfan
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Sedd Wag

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth a Bodfeurig

Meirionnydd
Elen ap Gwilym – Ysgol Bro Tegid
Disgwyl enwebiad - Llywodraethwyr Uwchradd

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH

Anest Gray Frazer

## YSGOLION EGLWYS

Owain Lemin Roberts (Ysgol Maesincla)

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu
Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 7

I gadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2018.
(Copi'n amgaeedig)

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**5. CYLLIDEB CYNGOR GWYNEDD 2019/20 - YSGOLION** 8

I dderbyn adroddiad ar yr uchod gan Dafydd L Edwards
(Copi'n amgaeedig)

**6. GRANTIAU YSGOLION 2019/20**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Hefin Owen

**7. DYRANIAD CYNNAL TIR A DYRANIAD RHWYDWAITH YSGOLION**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Owen Owens

**8. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH CYNNAL TIR**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Owen Owens

**9. UNRHYW FATER ARALL**

**10. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Ystafell Dwyryd, Penrhyndeudraeth, ar 19 Tachwedd 2018 o 14.00 hyd 15:45**

**Yn Bresennol:**

**Mr Godfrey Northam – Cadeirydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Thomas | (Addysg) |
| | Y Cynghorydd Peredur Jenkins | (Adnoddau) |

**Pennaeth Cyllid:** Dafydd Edwards

**Penaethiaid Ysgolion:** Mr Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Mr Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Mrs Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal), Mr Trystan Larsen (Ysgol Rhostryfan), Mrs Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Mr Llion Williams (Ysgol y Garnedd)

**Undebau Athrawon:** Neil Foden

**Llywodraethwyr:** Mr Edward Bleddyn Jones (Ysgol Tregarth a Bodfeurig), Mr Gwilym Jones (Ysgol Borthygest)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaethau Adnoddau Addysg), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid), Einir Thomas (Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol), Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Anest Gray Frazer (Yr Esgobaeth) ac Elen ap Gwilym (Llywodraethwr Ysgol Bro Tegid)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018 fel rhai cywir.

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Eitem 7 – Cyfrifon Terfynol Ysgolion 2017/18

Nodwyd nad yw grŵp wedi ei sefydlu i drafod aeddfedu systemau presennol yr ysgolion cynradd, ond y bydd yn cael ei sefydlu cyn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**5. SETLIAD DRAFFT – STRATEGAETH ARIANNOL CYNGOR GWYNEDD 2019/20**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad gan bwysleisio fod y setliad drafft sydd wedi ei gyflwyno gan y Llywodraeth yn ansicr. Mynegwyd mai drafft yw'r setliad ar hyn o bryd, a nodwyd gydag Arweinydd newydd i Lywodraeth Cymru ar ei ffordd mae posibilrwydd efallai y bydd yn cael ei addasu. Ymhelaethwyd gan nodi fod bwlch gyllido o £14m erbyn y flwyddyn nesaf. Amlinellwyd y ffactorau sy'n cyfrannu at y pwysau ariannol erbyn 2019/20, yn cynnwys Setliad Grant y Cyngor -0.8%, cytundeb tâl +2% a mwy i rai, ynghyd â chwyddiant yn parhau'n uchel, a'r galw ychwanegol ar wasanaethau gofal cymdeithasol.

Ychwanegwyd fod gan y Cyngor gynlluniau ar sut y gellid cyfarch y bwlch yn 2019/20. Ymhelaethwyd, gan nodi tebygolrwydd bydd cynnydd yn y Dreth Cyngor o 4.8% neu fwy. Nodwyd y bydd angen cynhaeafu cynlluniau arbedion cyfredol, a blaenoriaethu cynlluniau arbedion ychwanegol er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mynegwyd fod pwysau ychwanegol o ganlyniad i gynnydd mewn cyfraniadau cyflogwyr tuag at bensiynau athrawon. Ymhellach, tra disgwylir i'r Llywodraeth gyfarch y bwlch yma, mae'n bosib bydd angen i'r ysgolion ddygymod ag elfen ohono, pe na bai'r Llywodraeth yn ariannu'r cyfan o'r gost £1.6m yn 2019/20. Ychwanegwyd fod y Cabinet yn cynllunio i basio mlaen i'r ysgolion unrhyw arian a fydd yn dod i Wynedd ar gyfer pensiynau athrawon.

Amlinellwyd y drefn ar gyfer y cylch cyllideb / arbedion a gyflwynir i'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth. Nodwyd rhagolygon ar gyfer ysgolion Gwynedd, gan nodi y bydd ychwanegiad chwyddiant llawn, a rhai addasiadau fel yr arbediad uwchradd a ohiriwyd, ond ni fydd 'toriad' newydd i gyllideb ysgolion Gwynedd erbyn 2019/20. Tynnwyd sylw at ragolygon tebygol siroedd eraill sydd, ar hyn o bryd, yn bygwth toriadau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd, yn sefyllfa anodd y Cyngor, bod y tebygolrwydd o ddim toriad newydd erbyn 2019/20 yn bur hael, ond esboniwyd na fydd modd gwarantu hynny erbyn yn y blynyddoedd yn dilyn hyn.
- Nododd yr Aelod Cabinet dros Addysg, yn dilyn trafodaethau yng Nghaerdydd, fod addewid yno y bydd arian yn cael ei drosglwyddo i ysgolion ar gyfer Pensiwn Athrawon, ond er hyn fod yr arian ar gyfer hyfforddiant a grantiau yn lleihau.
- Trafodwyd Pensiynau - a nodwyd fod yr arian mewn cronfa wrth gefn gan Ganghellor Llywodraeth San Steffan ar hyn o bryd, ond gobeithir y bydd yn cael ei ddyrannu yn fuan drwy Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol i'r ysgolion.

**6. GRANTIAU 2019/20**

**Penderfynwyd trafod y Grantiau gydag eitem 8 - Rhagolygon 2019/20, 2020/21 a 2021/22.**

**7. ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Adnoddau Dysgu Ychwanegol gan nodi fod y sefyllfa o ran gorwariant yn argyfyngus. Ychwanegwyd fod cynnydd sylweddol yn y nifer o blant sy'n derbyn cefnogaeth a bod arbenigwr annibynnol allanol wedi ei gomisiynu i ymchwilio i mewn i'r gorwariant. Ychwanegwyd fod y gwaith o ailstrwythuro'r Panel Cymedroli wedi ei gwblhau a bod adroddiad ar ddata ADY a Chynhwysiad wedi ei gyflwyno i'r arbenigwr annibynnol allanol. Mynegwyd fod gwaith wedi ei gwneud ar adolygu'r canllawiau.

Ychwanegwyd fod yn dilyn cyflwyno'r Adroddiad Ymchwil bydd argymhellion ar gyfer gweithrediad i reoli'r sefyllfa yn cael eu nodi.

Tynnwyd sylw ar y faith er bod oriau cyfartalog fesul plentyn fesul wythnos wedi lleihau ychydig ers 2015. Mynegwyd er bod y cynnydd yn y niferoedd wedi arafu mae risg iddo godi eto, ond nad yw'r adran yn ymwybodol o faint y risg. Nodwyd fod cynnydd amlwg mewn rhai ardaloedd a rhan amlaf fod y plant yn dod o un sector sef Plant mewn gofal. Ychwanegwyd fod niferoedd sydd yn derbyn cefnogaeth ychwanegol ar gynnydd yn genedlaethol.

Mynegwyd fod y sefyllfa yn un anodd, yn benodol gan fod y maes dan bwysau yn enwedig gyda chludiant plant. Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet ei bod yn anodd dod o hyd i arian ychwanegol ac mae hi yn anodd gwybod ble i fynd ac i sicrhau lleihad mewn gorwariant.

**Penderfynwyd:** Derbyn a nodi'r uchod.

## 8. RHAGOLYGON 2019/20, 2020/21 A 2021/22

Nodwyd yn arferol nad yw rhagolygon fel arfer yn dod i'r Fforwm Gyllideb ond o ganlyniad i gynnydd Pensiwn Athrawon eu bod yn cael eu cyflwyno. Nodwyd er bod y Cyngor yn colli grant o £1.3m eto eleni, ychwanegwyd ei fod yn fwriad i'r cyngor ariannu chwyddiant cyflogau yn llawn a bydd yn costio £1.8m i'r Cyngor. Tynnwyd sylw at y rhagolygon yn benodol Grant 6ed. Mynegwyd ei bod yn ymddangos na fydd toriad 'cash' yn 2019/20, ond er hyn mae costau yn cynyddu 5% ac o ganlyniad mae'n doriad sylweddol.

Nodwyd nad oes unrhyw arweiniad ffurfiol wedi bod ar gyfer y Grant Gwella Addysg hyd yma, ond fod y rhagolygon yn seiliedig ar amcangyfrif o ddim toriad 'cash' a chynnydd mewn costau real. Ond ychwanegwyd nad yw cynlluniau Llwybrau Dysgu ddim ar gael ar hyn o bryd.

Nodwyd gwerthfawrogiad ysgolion o'r rhagolygon cynhyrchwyd gan yr Adran Gyllid.

Awgrymwyd posibilrwydd y bydd cwtogiad yng nghyllideb y Canolfannau Iaith, oherwydd lleihad grant penodol gan Lywodraeth Cymru, ac na fydd modd i'r Cyngor ddigolledu'r swm. O ganlyniad i hyn, nodwyd fod ailstrwythuro yn bosib, a bod trafodaeth yn cael ei gynnal â staff. Pwysleisiwyd na fydd yr ailstrwythuro yn amharu ar fynediad disgyblion i Ganolfannau Iaith. Nodwyd fod angen sicrhau ansawdd i'r dyfodol, gan eu bod yn bwysig o fewn y sir.

**Penderfynwyd:** Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

## 9. DULL DYRANNU CYLLID CYNNAL TIROEDD YSGOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg gan nodi fod y cyllid ar gyfer cynnal tiroedd yn cael ei ddyrannu i ysgolion ar sail hanesyddol ar hyn o bryd. Ychwanegwyd yn ystod y rownd o gynnig cytundebau lefel gwasanaeth y llynedd, fod angen ailfodelu'r dyraniad. Yn dilyn hyn, ychwanegwyd, fod gwaith i adnabod anghenion pob safle wedi ei wneud ac wedi ei anfon at yr ysgolion. Mynegwyd fod modd i'r dadansoddiad nodi'r gwaith craidd a dewisol.

Mynegwyd wrth ailfodelu bydd arian a ddyrennir yn cyd-fynd â'r gwaith craidd sydd angen ei wneud. Ychwanegwyd mai newid i sut mae'r arian yn cael ei ddyrannu mae'r cynllun yma ac nid newid y ffordd mae'n cael ei ariannu. Pwysleisiwyd bod angen edrych ar sut i

gyflwyno'r newid os oes newidiadau sylweddol i ddyraniad ysgolion unigol, yn enwedig mewn cyfnod mor ansicr.

Nodwyd nad yw'r fforwm yn anghytuno mewn egwyddor ond fod angen rhagrybuddio ysgolion os yn cael llai o arian. Nodwyd y byddai angen ail-ymweld â chost y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal Tiroedd canolog wrth gyflwyno'r dull dyrannu newydd.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad.

## 10. GWASANAETH RHWYDWAITH YSGOLION

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad, gan nodi fod Technoleg Gwybodaeth yn datblygu'n gyflym. Ychwanegwyd fod y ddarpariaeth o ran rhwydwaith a chyswllt cyfrifiadurol wedi gwella i safon gadarn yn holl ysgolion y sir. Mynegwyd o ganlyniad i gaffael rhwydwaith a datblygiadau technolegol, bydd cost y gwasanaeth yn lleihau, ac o ganlyniad bydd cyfanswm dyraniadau'r ysgolion yn lleihau cymesur.

Nodwyd y bydd cyfnod o ymgynghori ag ysgolion am adolygu'r sail dyrannu. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynnig i symud yn agosach at ddosbarthu ar sail nifer disgyblion.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad

## 11. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod 2 beth yn effeithio cytundebau lefel gwasanaeth sef Uned Gefnogi Addysg Cefnogol a Chyflogau, Personél a Chyfreithiol. Nodwyd fod gwaith yr Uned Gefnogi Addysg yn parhau i ddatblygu a gwnaed cais i'r cytundeb redeg am flwyddyn arall.

Gan fod gor-gyffwrdd rhwng gwaith yr Uned Gefnogi Addysg â'r hyn a gynhwysir yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cyflogau, Personél a Chyfreithiol, gwnaed cais i'r cytundeb hwnnw redeg am flwyddyn arall yn ogystal.

**PENDERFYNWYD:** Bod y cytundebau Uned Gefnogi Addysg a Chyflogau, Personél a Chyfreithiol yn rhedeg am flwyddyn arall.

## 12. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Dyddiad i'w drefnu yn ystod mis Chwefror / Mawrth.

**<u>CADEIRYDD</u>**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | FFORWM CYLLID YSGOLION |
| DYDDIAD | 4 Mawrth 2019 |
| TEITL | Cyllideb Cyngor Gwynedd 2019/20 - Ysgolion |
| PWRPAS | Diweddaru er gwybodaeth |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr Adroddiad |
| AWDUR | Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid |
| AELOD CABINET DROS CYLLID | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2019/20**

1. Wrth ddatblygu strategaeth arbedion a chyllideb drafft ar gyfer 2019/20, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi trosglwyddo targed arbedion pellach i ysgolion Gwynedd eto eleni.

2. Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2018 i gyfrifo dyraniadau 2019/20. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn codi £418k, sy'n cynnwys lleihad -£260k cynradd a cynnydd +£617k uwchradd a +£61k i'r ysgolion arbennig. Yn erbyn y cynnydd £617k eleni, mae'r sector uwchradd yn cyflawni arbediad £299k yn 2019/20, yn dilyn penderfyniad i'w ohirio am ddwy flynedd o 2017/18, pryd roedd y demograffi uwchradd yn negyddol.

3. Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu bidiau gwerth £593k i'r Adran Addysg, tuag at y cyllidebau cludiant (£400k) ac integreiddio (£193k), sy'n golygu y bydd cost 'Addysg' yn cynyddu'n sylweddol rhwng 2018/19 a 2019/20. Fodd bynnag, mae lleihad £247k yn dyraniadau ysgolion yn unol â'r Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Yn sicr, wedi cymryd chwyddiant dros £4m i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2019/20 na lefel 2018/19.

4. Hefyd, mae yna nifer o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ym maes Addysg. Tra mae'n ymddangos na fydd toriad "cash" i'r grantiau hyn eleni, mae'n debyg fod y Llywodraeth ddim yn ychwanegu chwyddiant i'w grantiau. Felly, gyda costau (chwyddiant cyflog a phensiwn athrawon) yn cynyddu 5%, bydd ysgolion yn canfod sefyllfa rhai o grantiau'r Llywodraeth fel toriad mewn termau "real". Fodd bynnag, bydd ein ysgolion yn derbyn grant newydd gan y Llywodraeth ar gyfer hyfforddi athrawon.

5. Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfrannu cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2019. Bydd cost hyn yn £1.6m am y 7 mis yn 2019/20, a bydd effaith blwyddyn llawn yn £2.8m erbyn 2020/21. Mae'n 7% o gost cyflogau athrawon, ond yn gynnydd 40% mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr.

   Wrth lunio'r gyllideb hon, rhagdybiwyd bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnydd pensiynau athrawon 2019/20 trwy grant penodol. Yn Ionawr 2019, mae'r 'Department for Education', wedi ymgynghori gyda'r sector addysg yn sôn am ariannu'r gost (£910m) yn llawn i ysgolion Lloegr. Disgwylir dyraniad dilynol i Lywodraeth Cymru, a bydd hwnnw yn cael ei basio yn ei dro i'r awdurdodau lleol, ac wedyn i'r ysgolion.

   Os bydd dim ariannu trwy grant penodol, neu os bydd y grant yn bell o fod yn ddigonol, adeg hynny bydd y Cyngor yn ail ymweld â hyn a thrafod ag ysgolion sut i ddelio gyda'r pwysau un-tro yn 2019/20.

   adroddiad llawn ar y gyllideb i'r Cabinet 19/02/2019 –
   https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/mgAi.aspx?ID=13592#mgDocuments&LLL=1